WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Hydref 2009

# Creu'r Cysylltiadau 3

**Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru**

**Rheoli Adeiladau**



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Cefndir

- Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ymrwymedig i raglen waith barhaus sy’n canolbwyntio ar agenda Creu’r Cysylltiadau drwy'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Yn 2007 cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru asesiad sylfaenol o’r cynnydd a wnaed o ran rhoi agenda Creu’r Cysylltiadau ar waith. Yn dilyn yr asesiad sylfaenol hwn, penderfynwyd y byddai adolygu prosesau Rheoli Asedau yn rhoi fframwaith i waith yn y dyfodol. Mae'r rhaglen yn ystyried prosesau Rheoli Asedau drwy'r sector cyhoeddus yng Nghymru mewn pedwar cam:
  - 2008 - Rheoli Fflydoedd.
  - 2009 – Rheoli Adeiladau.
  - 2010 – Rheoli Offer, Cyfarpar a Pheiriannau.
  - 2011 – Rheoli Asedau TG.
- Ym mis Mawrth a mis Ebrill 2009, cynhaliwyd adolygiad o'r gweithdrefnau sydd ar waith ar gyfer rheoli tir ac adeiladau yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru er mwyn ateb y cwestiwn allweddol:


**A yw Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn sicrhau bod ei drefniadau rheoli tir ac adeiladau yn cefnogi gwelliannau o ran effeithlonrwydd a darparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion a bodloni disgwyliadau defnyddwyr yn yr 21ain ganrif?**

# Cefndir

| | |
|---|---|
| Nifer yr eiddo | 48 |
| Gwerth | £19,757,439 |
| Arwynebedd mewnol gros m2 | 21,593 |
| Gwariant refeniw yn 07/08 | £1,118,765 |
| Gwerth yr ôl-groniad cynnal a chadw ar 31/3/08 | £10,000,000 |


# Dadansoddiad o'r asedau yng Nghymru

## Gwerth £m




| | Gwerth £m | Gwariant £m |
|---|---|---|
| Llywodraeth Ganolog | 315 | 30 |
| Tân a'r Heddlu | 162 | 24 |
| Y GIG | 858 | 50 |
| Awdurdodau Unedol | 7787 | 262 |
| Cyfanswm | **9122** | **366** |

## Gwariant £m




Mae'r siartiau hyn yn rhoi crynodeb o'r adeiladau a ddelir/a berchenogir drwy'r sector cyhoeddus yng Nghymru a gwerth y gwaith cynnal a chadw refeniw a wariwyd arnynt.

# Pa gwestiynau a ofynnwyd gennym?

***A yw Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru yn sicrhau bod ei drefniadau rheoli tir ac adeiladau yn cefnogi gwelliannau o ran effeithlonrwydd a darparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion a bodloni disgwyliadau defnyddwyr yn yr 21ain ganrif?***

**A - A yw Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru wedi datblygu strategaeth gadarn i reoli ei dir a'i adeiladau?**

**B - A oes gan Wasanaeth Tân Gogledd Cymru drefniadau rheoli perfformiad cadarn ar waith i lywio a chyflawni'r strategaeth gorfforaethol ar gyfer tir ac adeiladau?**

**C - A all Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru ddangos ei fod yn sicrhau gwerth am arian drwy'r broses strategol o reoli tir ac adeiladau?**

**CH - A all Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru ddangos ei fod yn sicrhau gwerth am arian drwy'r broses weithredol o reoli tir ac adeiladau?**

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# A - A yw Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru wedi datblygu strategaeth gadarn i reoli ei dir a'i adeiladau? (1)

## Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi datblygu strategaeth gadarn o ran tir ac adeiladau

- Mae cynllun da ar waith ar gyfer rheoli asedau
- Mae'n cynnwys anghenion yr holl randdeiliaid
- Caiff y cynllun pum mlynedd ei adolygu a'i ddiweddaru'n rheolaidd
- Dylid ymdrin â gweithio mewn partneriaeth yn fwy helaeth yn y cynllun
- Dylai'r cynllun a'r strategaeth rheoli asedau fod ar gael i bob aelod o staff a swyddogion

# A - A yw Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru wedi datblygu strategaeth gadarn i reoli ei dir a'i adeiladau? (2)

**Argymhellion ar gyfer gwella:**

- Dylid sicrhau bod y cynllun ar gael ar y fewnrwyd gan ystyried rhoi eitemau o ddiddordeb ar y rhyngrwyd
- Dylid ymestyn i ba raddau y caiff gweithio mewn partneriaeth a chydweithio o fewn y cynllun eu hystyried
- Gellid datblygu'r cynllun ymhellach drwy ystyried yn fanylach sut y caiff amcanion hirdymor eu cyflawni
- Gallai'r cynllun gynnwys manylion yr adnodd sy'n ofynnol i gyflawni'r strategaeth tir ac adeiladau

# B - A oes gan Wasanaeth Tân Gogledd Cymru drefniadau rheoli perfformiad cadarn ar waith i lywio a chyflawni'r strategaeth gorfforaethol ar gyfer tir ac adeiladau? (1)

## Mae trefniadau rheoli perfformiad ar waith sy'n monitro'r cynnydd a wneir tuag at y strategaeth

- Trefniadau rheoli perfformiad da
- Caiff cynnydd yn erbyn targedau rheoli perfformiad ei fesur yn rheolaidd
- Cyflwynir adroddiad ar brosesau rheoli perfformiad yn briodol

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# B - A oes gan Wasanaeth Tân Gogledd Cymru drefniadau rheoli perfformiad cadarn ar waith i lywio a chyflawni'r strategaeth gorfforaethol ar gyfer tir ac adeiladau? (2)

**Argymhellion ar gyfer gwella:**

- Dylai Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn y cynllun rheoli asedau fod yn rhai CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol)
- Dylid ehangu'r camau gweithredu yn y system rheoli perfformiad i gynnwys strategaethau a thargedau clir
- Dylid meincnodi Dangosyddion Perfformiad Allweddol gyda sefydliadau eraill
- Ystyriwch ychwanegu Dangosyddion Perfformiad Allweddol hy defnydd o ynni

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# C - A all Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru ddangos ei fod yn sicrhau gwerth am arian drwy'r broses strategol o reoli tir ac adeiladau? (1)

## Mae gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru weithdrefnau ar waith a ddylai sicrhau gwerth am arian o ran rheoli strategol

- Proses gadarn ar gyfer rheoli prosiectau
- Mae'r gwaith o gyflwyno adroddiadau ar brosiectau a ffocws ar lefelau uwch yn dda

# C - A all Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru ddangos ei fod yn sicrhau gwerth am arian drwy'r broses strategol o reoli tir ac adeiladau? (2)

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

**Argymhellion ar gyfer gwella:**

- Dylai'r gweithdrefnau ar gyfer arfarnu opsiynau fod yn fanylach yn y cynllun rheoli asedau
- Dylid cofnodi'r broses ar gyfer caffael a gwerthu eiddo (yn cynnwys ystyried cydweithio)
- Byddai sicrhau strwythur ffeil clir a dogfen eglurhaol sy'n nodi'r camau ym mhob prosiect yn gwella'r prosesau rheoli prosiectau a chadw dogfennau

# CH - A all Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru ddangos ei fod yn sicrhau gwerth am arian drwy'r broses weithredol o reoli tir ac adeiladau?

## Mae gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru weithdrefnau ar waith a ddylai sicrhau gwerth am arian o ran rheoli strategol

- Proses dda ar gyfer rheoli gweithredol drwy ddefnyddio'r Llinell Gymorth
- Enghreifftiau o arbedion cost drwy gydweithio
- Mae'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Heddlu Gogledd Cymru yn gweithio'n dda
- Gellid diffinio rôl y "Rheolwr adeiladau" yn fwy eglur ym mhob eiddo

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# CH - A all Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru ddangos ei fod yn sicrhau gwerth am arian drwy'r broses weithredol o reoli tir ac adeiladau? (2)

## Argymhellion ar gyfer gwella:

- Gellid diffinio cyfrifoldebau tir ac adeiladau'r Rheolwr Gweithrediadau Sirol neu'r Rheolwr Gwarchod yn fwy eglur
- Dylid adolygu'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Heddlu Gogledd Cymru o fewn y 12 mis nesaf i bennu a yw'n parhau i weithio'n effeithiol

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Beth yw ein casgliad cyffredinol?

**Mae gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru drefniadau ar waith sy'n cefnogi gwelliannau o ran effeithlonrwydd a darparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion a bodloni disgwyliadau defnyddwyr yn yr 21ain ganrif**

**Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:**

- Mae cynllun rheoli asedau da a chlir ar waith
- Mae'r trefniadau rheoli perfformiad yn gweithio'n dda
- Trefniadau cadarn i sicrhau gwerth am arian
- Prosesau clir i ymdrin â phrosiectau mawr a gwaith cynnal a chadw parhaus
- Enghreifftiau da o arbedion cost drwy gydweithio

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Atodiad 1 Argymhellion

## A - A yw Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru wedi datblygu strategaeth gadarn i reoli ei dir a'i adeiladau?

| Argymhelliad | Ymateb rheolwyr | Dyddiad disgwyliedig a'r swyddog cyfrifol |
|---|---|---|
| 1. Nid yw'r ddogfen rheoli asedau ar gael i'r cyhoedd ar y rhyngrwyd na'r fewnrwyd ar hyn o bryd. Dylid ei rhoi ar y fewnrwyd er mwyn i bob aelod o staff a swyddogion ei gweld a dylid ystyried a ddylid ychwanegu rhannu perthnasol i safle'r rhyngrwyd<br>Hefyd, er bod y cynllun yn cwmpasu gwaith ar y cyd (gweithio mewn partneriaeth a chydweithio), gellid ymestyn yr adran hon | Caiff y Cynllun Rheoli Asedau ei roi ar y fewnrwyd a'r rhyngrwyd ar ôl ei ddiweddaru yn unol ag argymhellion yr adroddiad hwn. Ni chaiff gwybodaeth sy'n sensitif yn fasnachol, fel gwerthu a chaffael eiddo, ei chynnwys. | Stephen Roberts,<br>Pennaeth Rheoli Cyfleusterau<br><br>31ain Rhagfyr 2009 |
| 2. Er bod y cynllun yn cynnwys amcanion hirdymor, byddai o fudd ystyried a chofnodi sut y caiff yr amcanion tymor hwy eu cyflawni | Caiff y Cynllun Rheoli Asedau ei ddiweddaru i fodloni'r argymhelliad. | Stephen Roberts,<br>Pennaeth Rheoli Cyfleusterau<br>31ain Rhagfyr 2009 |
| 3. Er bod y cynllun yn cynnwys manylion y cyllid sydd ar gael i'r rhaglen asedau, nid yw'n cynnwys manylion yr adnodd sy'n ofynnol o safbwynt staffio a fyddai'n helpu i roi'r holl wybodaeth am y gofynion i gyflawni'r cynllun | Caiff y Cynllun Rheoli Asedau ei ddiweddaru i fodloni'r argymhelliad. | Stephen Roberts,<br>Pennaeth Rheoli Cyfleusterau<br><br>31ain Rhagfyr 2009 |

# Atodiad 1 Argymhellion (parhad)

## B - A oes gan Wasanaeth Tân Gogledd Cymru drefniadau rheoli perfformiad ar waith i lywio a chyflawni'r strategaeth gorfforaethol ar gyfer tir ac adeiladau?

| Argymhelliad | Ymateb rheolwyr | Dyddiad disgwyliedig a'r swyddog cyfrifol |
|---|---|---|
| 1. Nid yw'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn y cynllun rheoli asedau yn rhai CAMPUS ac maent yn lefel eithaf uchel. Nid ydynt yn rhoi manylion llawn o'r modd y cânt eu mesur a'r cynlluniau gweithredu sydd ar waith i'w cyflawni. Gellid hefyd bennu targedau ar gyfer pob safle ym meysydd arbed ynni ac ailgylchu. | Caiff y Cynllun Rheoli Asedau ei ddiweddaru i fodloni'r argymhelliad. | Stephen Roberts,<br>Pennaeth Rheoli Cyfleusterau<br><br>31ain Rhagfyr 2009 |
| 2. Nid yw Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru'n ymgymryd ag unrhyw feincnodi ar hyn o bryd. Er bod meincnodi anffurfiol yn mynd rhagddo, o bosibl, gan ei bod yn adran a rennir gyda'r heddlu, nid yw hyn yn ffurfiol. Byddai o fudd i'r awdurdod pe bai'n ymgymryd â meincnodi neu o leiaf yn sefydlu cysylltiadau cyfathrebu â'r gwasanaethau tân eraill er mwyn cyfnewid gwybodaeth. | Bwriedir cyfathrebu ag Adrannau Ystadau/Cyfleusterau'r ddau Wasanaeth Tân ac Achub arall yng Nghymru gyda'r nod o gwrdd i rannu gwybodaeth ac ystyried dichonoldeb meincnodi yn y dyfodol. | Andy Mayers<br>Rheolwr Gweithrediadau Rheoli Fflyd<br><br>31ain Hydref 2009 |

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Atodiad 1 Argymhellion (parhad)

## C - A all Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru ddangos ei fod yn sicrhau gwerth am arian drwy'r broses strategol o reoli tir ac adeiladau?

| Argymhelliad | Ymateb rheolwyr | Dyddiad disgwyliedig a'r swyddog cyfrifol |
|---|---|---|
| 1. Mae polisïau lefel uchel ar waith sy'n rheoli'r gweithdrefnau ar gyfer caffael a gwerthu tir ac adeiladau. Gallai'r gweithdrefnau hyn fod yn fanylach a gallent egluro pa opsiynau y dylid eu hystyried wrth ystyried, er enghraifft, a ddylid adeiladu neu adnewyddu a sut y dylid cyflwyno adroddiadau ar ganlyniadau'r gwaith o arfarnu opsiynau. | Aros am dempled arfarnu opsiynau gan Swyddfa Archwilio Cymru i arfarnu prosiectau cyfalaf yn y dyfodol. | Stephen Roberts,<br>Pennaeth Rheoli Cyfleusterau<br><br>1af Ebrill 2010 ymlaen. |
| 2. Er yr ymddengys bod gweithdrefnau da ar waith yn yr adran ar gyfer rheoli prosiectau, gellid gwella hyn drwy gael dogfen gryno yn nodi'r camau allweddol ym mhob prosiect a darparu strwythur cyffredinol ar gyfer y ffeiliau. Byddai hyn yn galluogi eraill i adolygu a chynorthwyo mewn prosiectau pe na bai'r unigolyn sy'n arwain y prosiect ar gael. | Bwriedir gweithredu'r argymhelliad ar gyfer pob prosiect cyfalaf yn y dyfodol a mabwysiadu mynegai safonol ar gyfer pob prosiect. | Ian Poole,<br>Rheolwr Prosiectau Cyfalaf<br><br>1af Hydref 2009 ymlaen. |

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Atodiad 1 Argymhellion (parhad)

## CH - A all y Cyngor ddangos ei fod yn sicrhau gwerth am arian drwy'r broses weithredol o reoli tir ac adeiladau?

| Argymhelliad | Ymateb rheolwyr | Dyddiad disgwyliedig a'r swyddog cyfrifol |
|---|---|---|
| 1. Er bod ymwybyddiaeth o'r ffaith bod y Rheolwyr Gweithrediadau Sirol a'r Rheolwyr Gwarchod yn gyfrifol o ran tir ac adeiladau hy cwblhau rhestrau gwirio Iechyd a Diogelwch, dylid diffinio rôl y Rheolwyr Gweithrediadau Sirol neu'r Rheolwyr Gwarchod yn fwy ffurfiol. | Llunio rhestr o ddyletswyddau i reolwyr gorsafoedd lleol sy'n diffinio eu cyfrifoldeb am y safle a reolir ganddynt a rhoi copi ohono i bob Rheolwr Gwarchod a Rheolwr Gweithrediadau Sirol. | Andy Mayers, Rheolwr Gweithrediadau Rheoli Fflyd<br><br>30ain Tachwedd 2009 |
| 2. Dechreuodd y Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Heddlu Gogledd Cymru ar 1 Mehefin 2006 ac mae'n gytundeb 5 mlynedd. Byddai'n beth doeth adolygu'r trefniant o fewn y 12 mis nesaf i ystyried a yw'n parhau i weithio'n effeithiol a chynllunio a ddylid adnewyddu'r cytundeb ar ddiwedd y 5 mlynedd neu a ddylid gwneud trefniadau amgen. | Bydd Pennaeth yr Adran Rheoli Fflyd a'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol sy'n gyfrifol am Ystadau yn adolygu'r perfformiad o ran y Cytundeb Lefel Gwasanaeth i asesu a ddylid ymestyn y Cytundeb hwnnw, yn amodol ar gymeradwyaeth y Panel Gweithredol. | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Colin Hanks a Stephen Roberts, Pennaeth Rheoli Cyfleusterau<br><br>31ain Mawrth 2010 |